YSGOL GYMRAEG

CADW IAITH CADW GWLAD

BRYN Y MÔR

# Tymor yr Hydref 2017 – Dosbarth Derbyn Mrs Jenkins



Thema'r tymor yw:

## Pawennau, Crafangau a Wisgers

Dyma ein syniadau ar gyfer y tymor.

**Sgiliau Cymhwysedd Digidol:**

- Datblygu ein sgiliau prosesu geiriau
- Dysgu sut i gadw gwaith

**Addysg Grefyddol:**

- Dysgu am y Cynhaeaf

**Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd**

- Dysgu am anifeiliaid sydd yn rhan o deulu'r cathod yn cynnwys cathod dof a chathod mawr
- Dysgu am gynefinoedd lle mae cathod yn byw yn y cartref ac yn y gwyllt
- Dysgu am rannau cyrff cathod

**Datblygiad Corfforol**

- Ymarfer a datblygu sgiliau echddygol bras
- Ymarfer ein sgiliau llawdrin manwl a chydsymud llaw-llygad

**Datblygiad Creadigol**

- Tynnu lluniau o gathod
- Creu ffurfiau 3D o gathod
- Dysgu caneuon am gathod
- Dysgu sut i drefnu symudiadau i synau a cherddoriaeth
- Perfformio hwiangerddi a rhigymau rhif yn y Sialens Rhigwm ar ddiwedd yr hanner tymor

**Datblygiad Personol a Chymdeithasol**

- Chwarae gemau i ddatblygu sgiliau canolbwyntio
- Dangos gofal, parch a hoffter at ein gilydd, tuag at oedolion a'n hamgylchedd
- Dysgu am sut i ofalu am anifeiliaid ac am sefydliadau ac elusennau sy'n darparu lles anifeiliaid

**Ymweliadau/Ymwelwyr**

Fe fydd swyddogion o Ganolfan Anifeiliaid **Llys Nini** yn ymweld â'r ysgol ar 23/10/17

**Cofiwch ymweld â <u>www.yggbrynymor.co.uk</u> -'adran y plant – tudalennau dosbarth' am fwy o fanylion. Dilynwch ni ar 'trydar' hefyd! @YGGBYMRJenkins**

**Iaith, Llythrennedd a Sgiliau Cyfathrebu**

- Creu cornel chwarae ' Milfeddygfa Marc'
- Gwrando ar lawer o straen a cherddi sy'n ymwneud â'r thema
- Dysgu caneuon, rhigymau a hwiangerddi
- Mynegi ein hunain drwy wneud marciau, tynnu lluniau ac ysgrifennu cychwynnol

**Datblygiad Mathemategol**

- Datblygu ein dealltwriaeth o iaith fathemategol drwy chwarae rôl a chwarae gemau
- Canu caneuon ac adrodd rhigymau rhif
- Cyfrif, trefnu cymharu a dosbarth gwrthrychau
- Dechrau dysgu adnabod ac ysgrifennu rhifau
- Ymchwilio i fesurau, siâp a phatrwm